Myfyrdodau Byrion ar Ferched yr Hen Destament: Siffra a Pua

Exodus 1: 15-20

Wrth droi ychydig dudalennau cyntaf Llyfr Exodus, anodd yw peidio sylwi mor bwysig yw rôl llond dwrn o wragedd yn nechreuadau'r hanes. Dim ond dwy ohonynt sydd yn cael eu henwi: Siffra a Pua, dwy fydwraig yr Hebreaid. (Llun: *Puah and Shiprah Defy Pharoh* gan Sallie Clinton Post (gan. 1970)) Y ddwy, gyda dewrder anhygoel yn gwrthod cydymffurfio â deddf newydd Pharo. 'Roedd pob bachgen newydd-anedig o blith yr Hebreaid i'w ladd. Cyn bo hir mae Pharo yn dechrau sylwi, er gwaetha'r ddeddf newydd, fod yr Hebreaid yn dal i gynyddu!



Mae'r ddwy fydwraig yn cael eu galw i bresenoldeb y Pharo. "*Eglurwch i mi,*" meddai, "pam y'ch chi'n gadael i fechgyn newydd-anedig yr Hebreaid fyw?"
Heb os, mae bywyd y ddwy yn y fantol! Mae Pharo yn amau eu twyll yn fawr. Gyda dyfeisgarwch a menter rhyfeddol, dywedasant wrtho,
"*O Pharo, choeliwch chi ddim, ond mae gwragedd yr Hebreaid yn wahanol iawn i ni! Mae gwragedd yr Eifftiaid yn esgor am oriau, ond mae gwragedd yr Hebreaid yn fywiog tu hwnt, heb boen geni o gwbl ac yn esgor cyn inni gyrraedd!*"
Mae'r eglurhad yn dibynnu ar y gobaith y bydd rhagfarn Pharo, a'i ofn o'r Hebreaid, yn drech na'i reswm. Felly y bu. Fe gredodd Pharo.

Oherwydd eu dewrder rhyfeddol mae'r ddwy yn haeddu cael ei henwau wedi eu nodi a'u cofio. Doed a ddelo, maent yn gwrthod baeddu eu dwylo â gwaed y diniwed. Trwy fod yn ewn a wynebgaled maent yn rhoi cyfle i fywyd ddianc o grafangau marwolaeth!

Dyro i ni dy weision, tuag at ein Duw – galon o dân; tuag at ein cyd-ddynion – galon o gnawd; tuag at ein hunain – galon o ddur.
Amen (Awstin Sant 354-430)